**Sesiwn 2000-2001 Rhif 44**

# PAPURAU BUSNES

## RHAN 2 – ADRAN H

## PLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD IAU, 18 IONAWR 2001

**Dechreuodd y Cyfarfod am 9.05am**

**Cwestiynau i Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
Gofynnwyd y **5** cwestiwn cyntaf.

**9.23am**

**Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes**
Gofynnwyd y **6** chwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 3 yn ôl.

**9.47am**

**Cwestiynau i Bwyllgor y Ty**
Gofynnwyd y **7** cwestiwn cyntaf.

**10.06am**

**Datganiadau:**

**Gwnaeth y Trefnydd ddatganiad ar Fframwaith Strategol yr Oes Wybodaeth**

**10.41am**

**Gwnaeth y Gweinidog dros Gyllid a Chymunedau ddatganiad ar yr Adeilad Newydd.**

**11.19am**

**Pwyntiau o Drefn**

1. 1. **David Melding** ar gynrychiolaeth ieithyddol ymhlith Aelodau Byrddau Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.
2. **Cynog Dafis** ar ddisgrifio penderfyniadau a wneir gan Weinyddiaeth y Cynulliad fel rhai a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
3. **Huw Lewis** ar y terminoleg cywir ar gyfer Llywodraeth y DU o fewn y Siambr. Cynghorodd **y Llywydd** y byddai'r termau "Llywodraeth y DU", "Whitehall" neu "San Steffan" yn briodol.

**11.31am**

**Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair**

**Dadl ar Ymgynghori a Chyfranogi**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

- Yn cadarnhau ei gefnogaeth i ddull cyfranogol o lywodraethu Cymru ac yn cydnabod arwyddocâd cyfranogaeth y cyhoedd o ran datblygu polisïau cyhoeddus effeithiol ac unigryw yng Nghymru.
- Yn nodi'r ddogfen o'r enw 'Engaging Wales – Consultation and Participation' (a ddosbarthwyd i Aelodau'r Cynulliad dros yr e-bost ar y 11 Ionawr 2001) fel rhan o adolygiad sydd ar y gweill o weithdrefnau'r Cynulliad.
- Yn cydnabod y bydd angen datblygu ffyrdd newydd o weithredu er mwyn gwir sicrhau bod rhan i'r sawl a oedd gynt wedi cael eu heithrio o brosesau gwleidyddol.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**1. William Graham (Dwyrain De Cymru);**

Dileu'r pwynt bwled cyntaf a rhoi pwynt bwled newydd, sydd yn darllen fel a ganlyn, yn ei le:

- Yn cadarnhau ei gefnogaeth i ddull cyfranogol o lywodraethu Cymru.

**2. William Graham (Dwyrain De Cymru);**

Dileu'r ail bwynt bwled.

**3. William Graham (Dwyrain De Cymru);**

Dileu'r trydydd pwynt bwled a rhoi pwynt bwled newydd, sydd yn darllen fel a ganlyn, yn ei le:

- Yn sefydlu ffyrdd newydd, mwy creadigol o roi gwybod i bobl am y materion sydd yn effeithio arnynt yn uniongyrchol, ac yna, ar ôl ymgynghori, darparu fformat syml i'w galluogi i wir gyfrannu at y prosesau sy'n effeithio ar eu bywydau.

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ar ôl y trydydd pwynt bwled, ychwanegu:

Ond yn gresynu nad yw'r Cabinet hyd yn hyn wedi dangos llawer o awydd i ymgynghori neu gyfranogi mewn modd ystyrlon, nac i roi ystyriaeth ddigonol i'r cyflwyniadau a wnaed.

**Pleidleisiwyd:**

**Gwelliant 1**

O Blaid 6; Ymatal 0; Yn erbyn 38; Cyfanswm 44

**Gwrthodwyd gwelliant 1**

**Gwelliant 2**

O Blaid 6; Ymatal 0; Yn erbyn 38; Cyfanswm 44

**Gwrthodwyd gwelliant 2**

**Gwelliant 3**

O Blaid 6; Ymatal 0; Yn erbyn 40; Cyfanswm 46

**Gwrthodwyd gwelliant 3**

**Gwelliant 4**

O Blaid 16; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 46

**Gwrthodwyd gwelliant 4**

**Y cynnig**

O Blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46

**Cymeradwywyd y cynnig**

**12.15pm**

**Dadl Fer: Gwenda Thomas (Castell-nedd); Fy hawl i fod yn Mrs ac yn wraig**

**Daeth y cyfarfod I ben am 12.32 pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 23 Ionawr 2001**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

### DOFGENNAU A GYFLWYNWYD AR 16 IONAWR 2001

LC150 - Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau - Rheoliadau Deunydd Risg Penodedig (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2000

### DOFGENNAU A GYFLWYNWYD AR 15 IONAWR 2001

LC134 - Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau - Gorchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Swyddogaethau Interim) 2000